# Atebion i Gwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 1 Chwefror 2010

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes

4 Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

7 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

8 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

9 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Dreftadaeth

10 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig

11 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

## *Gofyn i Brif Weinidog Cymru*

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Faint y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi codi proffil Cymru ymysg cyrff rhyngwladol, gan gynnwys sefydliadau sy'n gysylltiedig â'r Undeb Ewropeaidd. (WAQ55523)

***Rhoddwyd ateb ar 19 Ebrill 2011***

Mae Llywodraeth Cynulliad yn ymrwymedig i fynd i'r afael â'i hamcanion polisi drwy gyrff rhyngwladol a goruwchgenedlaethol lle y bo'n briodol. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ceisio dylanwadu o blaid Cymru ar benderfyniadau'r UE ac yn ymgysylltu'n rhagweithiol gyda holl sefydliadau'r UE: Cyngor y Gweinidogion, Senedd Ewrop a'r Comisiwn Ewropeaidd. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi chwarae rhan weithredol mewn amrywiaeth o sefydliadau rhyngwladol ac wedi cymryd rôl arweiniol mewn nifer ohonynt, gan gynnwys Arlywyddiaeth Cynhadledd y Rhanbarthau Ewropeaidd sydd â Phwerau Deddfu (RegLeg), Is-lywyddiaeth Cymdeithas Awdurdodau Rhanbarthol a Lleol Ewrop dros Ddysgu Gydol Oes (EARLALL), a Chydgadeirydd Rhwydwaith y Llywodraethau Rhanbarthol dros Ddatblygu Cynaliadwy (nrg4sd), sydd oll wedi cyfrannu i godi proffil Cymru.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb*

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Beth yw cost y grwpiau gorchwyl a gorffen sy'n ymwneud â phortffolio'r Gweinidog ar gyfer pob blwyddyn er 2005. (WAQ55541)

***Ni ddarparwyd cyfieithiad***

The information you requested is not collected.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Beth yw cost yr adolygiadau allanol a wnaethpwyd gan adran y Gweinidog ym mhob blwyddyn er 2005. (WAQ55549)

***Ni ddarparwyd cyfieithiad***

I will write to you as soon as possible and a copy of the letter will be published on the Official Record.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes*

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am unrhyw drafodaethau y mae wedi'u cael neu ystyriaethau y mae wedi'u rhoi i sefydlu Canolfan yng Nghymru dros Addysg Ariannol. (WAQ55516)

***Rhoddwyd ateb ar 19 Ebrill 2011***

Sefydlodd Llywodraeth Cynulliad Cymru yr Uned Addysg Ariannol Gymreig, mewn partneriaeth â"r Awdurdod Gwasanaethau Ariannol, ym mis Medi 2008.

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer addysg ariannol yng Nghymru. (WAQ55517)

***Rhoddwyd ateb ar 19 Ebrill 2011***

Mae Strategaeth Cynhwysiant Ariannol Llywodraeth Cynulliad Cymru - 'Mae Pawb yn Cyfrif' yn nodi ein cynlluniau i fynd i'r afael â rhwystrau i gynhwysiant ariannol a rhoi cymorth i'r rhai na allant fforddio cael eu hallgáu'n ariannol.

Mae'r strategaeth yn rhoi sylw penodol i addysg ariannol, gan gydnabod pwysigrwydd sicrhau bod gan bobl y wybodaeth a'r sgiliau i reoli eu harian a gwneud penderfyniadau ariannol hyddysg. Mae'r strategaeth yn nodi camau i wella addysg ariannol mewn ysgolion, sefydliadau addysg bellach, sefydliadau addysg uwch, y gweithle ac mewn sefydliadau sy'n helpu pobl ifanc sy'n aml yn cael eu hallgáu. Caiff adroddiad blynyddol ei gyhoeddi ar y cynnydd a wneir.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Faint o gynnydd sydd wedi cael ei wneud yng nghyswllt addewid Llywodraeth Cynulliad Cymru i haneru tlodi plant erbyn 2010. (WAQ55518)

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Faint o gynnydd sydd wedi cael ei wneud mewn perthynas ag addewid Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddileu tlodi plant erbyn 2020. (WAQ55533) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Dirprwy Weinidog dros Blant***

***Rhoddwyd ateb ar 19 Ebrill 2011***

**Y Dirprwy Weinidog dros Blant (Huw Lewis)**: Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi nodi ei hymrwymiad i dargedau Llywodraeth y DU o ran tlodi plant. Rydym wedi ymrwymo i wneud popeth a allwn o fewn y pwerau sydd gennym i gyflawni'r nod o ddileu tlodi plant yn y DU erbyn 2020.

Mae Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru), a basiwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol ar 10 Tachwedd 2009, wedi ein galluogi i ddangos ein bod ni, yng Nghymru, yn arwain y ffordd ac o ddifrif o ran wynebu'r her o sicrhau fframwaith statudol cadarn er mwyn cyfarwyddo a chynorthwyo'r gwaith o fynd i'r afael â thlodi plant.

Er gwaethaf effeithiau'r dirwasgiad, roedd yr ystadegau a gyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ym mis Tachwedd 2009 yn dangos y gwelliant yn hanner y dangosyddion tlodi plant y mae gennym ddata arnynt sy'n ddigonol i wneud asesiad. Mae'r ystadegau'n berthnasol i ddangosyddion sy'n monitro cynnydd yn ôl ein targedau strategaeth tlodi plant a nodwyd yn "Dileu Tlodi Plant yng Nghymru: Mesur Llwyddiant", a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2006.

Mae'n hanfodol i'r strategaeth newydd greu ymdeimlad o ddiben cenedlaethol unedig, gan gydweithio â Llywodraeth y DU i ddileu tlodi plant erbyn 2020. Bydd Llywodraeth y DU yn datblygu ei Strategaeth Tlodi Plant newydd hyd at 2020 ochr yn ochr â Strategaeth Cymru a bydd yn bwysig bod Strategaeth Cymru yn asio â Strategaeth y DU o ran dulliau polisi sylweddol ar lefel y DU sydd â'r gallu i leihau lefelau tlodi incwm yn arbennig.

Rhagwelir y caiff drafft cyntaf y Strategaeth Tlodi Plant newydd ei ystyried gan Bwyllgor y Cabinet ar Blant a Phobl Ifanc yn fuan. Bydd cyfnod o ymgynghoriad i ddilyn yn hwyrach eleni.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru)**: Beth yw cost y grwpiau gorchwyl a gorffen sy'n ymwneud â phortffolio'r Gweinidog ar gyfer pob blwyddyn er 2005. (WAQ55543) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb***

***Ni ddarparwyd cyfieithiad***

**Jane Hutt**: The information you requested is not collected.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Beth yw cost yr adolygiadau allanol a wnaethpwyd gan adran y Gweinidog ym mhob blwyddyn er 2005. (WAQ55551) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb***

***Ni ddarparwyd cyfieithiad***

**Jane Hutt:** I will write to you as soon as possible and a copy of the letter will be published on the Official Record.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth*

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Pa waith sydd wedi cael ei wneud at sefydlu Canolfannau Ymchwil Cenedlaethol newydd. (WAQ55519) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Dirprwy Weinidog dros Wyddoniaeth, Arloesi a Sgiliau***

***Rhoddwyd ateb ar 19 Ebrill 2011***

**Y Dirprwy Weinidog dros Wyddoniaeth, Arloesi a Sgiliau (Lesley Griffiths):** Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo'n llawn i sefydlu Canolfannau Ymchwil a fydd yn helpu i ddenu swm sylweddol o arian ymchwil ychwanegol a datblygu eu proffil rhyngwladol. Hyd yma, mae dwy Ganolfan Ymchwil Genedlaethol wedi cael eu sefydlu yng Nghymru- y Sefydliad Ymchwil Cyfrifiadura Gweledol, a Sefydliad Ymchwil, Data a Methodoleg Gymdeithasol ac Economaidd Cymru (WISERD). Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn parhau i gefnogi Canolfannau sydd ag arbenigedd amlwg o'r radd flaenaf, màs critigol o allu ac adnoddau ymchwil, sy'n canolbwyntio ar sectorau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'u blaenoriaethu ac sy'n canolbwyntio ar ddarparu sgiliau lefel uwch.
Byddwn yn parhau â'n camau gweithredu presennol i greu rhwydwaith o Ganolfannau Ymchwil yng Nghymru ac i sicrhau bod yr ymchwil a gynhelir yn arwain fwyfwy at fasnacheiddio ac effeithiau economaidd fel yr adlewyrchwyd yn y blaenoriaethau a nododd "Er Mwyn Ein Dyfodol", sef blaenoriaethau cenedlaethol Llywodraeth Cynulliad Cymru o ran ariannu cyfatebol ym maes ymchwil, ac adlewyrchu'r pwysigrwydd o ddatblygu cyfleoedd yng Nghymru ym meysydd gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg.

Y blaenoriaethau yw:
- Yr economi ddigidol (TGCh).
- Yr economi carbon isel (gan gynnwys lliniaru newid yn yr hinsawdd).
- Iechyd a Biowyddorau.
- Peirianneg a gweithgynhyrchu uwch.

Cafodd y Gronfa Ad-drefnu a Chydweithredu ei sefydlu gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru i gryfhau'r sector addysg uwch yng Nghymru drwy hyrwyddo'r arfer o gydweithredu rhwng sefydliadau. Mae'r Gronfa'n cynorthwyo datblygiadau ar draws holl weithgareddau sefydliadau, nid gwaith ymchwil yn unig. Fodd bynnag, mae wedi chwarae rôl bwysig o ran cryfhau'r sylfaen ymchwil yng Nghymru drwy gynorthwyo nifer o bartneriaethau ymchwil.

Partneriaethau Ymchwil a ariennir gan y Gronfa Ad-drefnu a Chydweithredu
Partneriaeth Ymchwil a Menter Aberystwyth/Bangor
Sefydliad Ymchwil Carbon Isel
Sefydliad Niwrowyddorau Gwybyddol Cymru
Sefydliad Gwyddorau Mathemategol a Chyfrifiannol Cymru
Sefydliad Ymchwil, Data a Methodoleg Gymdeithasol ac Economaidd Cymru (WISERD)

Sefydliad Cyfrifiadura Gweledol Cymru
Cynghrair y Gwyddorau Biolegol ac Amgylcheddol
Y Consortiwm Newid yn yr Hinsawdd

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Pa waith sydd wedi cael ei wneud at sefydlu Academi Wyddoniaeth Genedlaethol. (WAQ55520) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Dirprwy Weinidog dros Wyddoniaeth, Arloesi a Sgiliau***

***Rhoddwyd ateb ar 19 Ebrill 2011***

**Lesley Griffiths**: Comisiynwyd astudiaeth gwmpasu ar gyfer ymrwymiad Cymru'n Un i Academi Gwyddoniaeth Genedlaethol a gafodd ei chynnal rhwng mis Chwefror ac Ebrill 2009. Nododd yr astudiaeth yr hyn y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud ar hyn o bryd, ac enghreifftiau o'r arfer gorau. Ymchwiliodd i unrhyw rwystrau a oedd yn bresennol i atal pobl rhag astudio pynciau gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg a chynigiodd argymhellion o ran beth y mae angen i'r Academi Gwyddoniaeth Genedlaethol ei gyflawni i Gymru. Bu rhagor o ymgynghoriadau ers hynny. Llywodraeth y Cynulliad fydd yn gyfrifol am ddarparu'r Academi, a bydd ganddi rôl gref ledled Cymru o ran cydlynu a chydweithio â phartneriaid presennol, ynghyd â rôl allweddol i ddylanwadu ar y cwricwlwm a darbwyllo mwy o bobl ifanc i astudio pynciau gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Sut y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi symud ymlaen o ran ei haddewid i ddatblygu rhaglen wedi'i thargedu i wella lefelau sgiliau ar gyfer anghenion yn y gweithle nawr ac yn y dyfodol. (WAQ55521) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Dirprwy Weinidog dros Wyddoniaeth, Arloesi a Sgiliau***

***Rhoddwyd ateb ar 19 Ebrill 2011***

**Lesley Griffiths**: Mae sgiliau yn allweddol wrth lywio cyflogaeth a chynhyrchiant. Ymatebodd APADGOS yn gyflym i'r dirywiad economaidd, gyda nifer o fentrau wedi'u targedu i helpu unigolion a busnesau.

Mae ProAct, sy'n rhoi cymorth ariannol i gwmnïau i wella lefel sgiliau eu gweithlu, wedi cefnogi 8357 o unigolion drwy 221 o geisiadau hyfforddiant hyd yn hyn.

Rydym wedi ehangu ReAct hefyd, i helpu unigolion sydd wedi colli eu swyddi i ddychwelyd i waith cyn gynted â phosibl. Rydym yn mynd i'r afael â sgiliau sylfaenol yn y gweithle drwy weithio gyda'r Undebau Llafur a thrwy'r Adduned Sgiliau Sylfaenol i Gyflogwr.

Rydym wedi neilltuo £79.7miliwn yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol i fuddsoddi yn ein rhaglen Prentisiaeth prif ffrwd ac £20miliwn i raglenni prentisiaethau arbennig mewn sectorau penodol i bobl ifanc.

Mae galw uchel o hyd am gymorth drwy Raglen Datblygu'r Gweithlu ac mae 1,753 o gyflogwyr wedi ymuno â'r rhaglen yn ystod y flwyddyn ariannol hon, gan gynrychioli 78,603 o gyflogeion.

Mae Rhaglen Peilot y Gronfa Blaenoriaethau Sector yn treialu gweithgareddau gyda'r Cynghorau Sgiliau Sector er mwyn llywio argymhellion ar gyfer Cronfa Blaenoriaethau Sector 2011 a nodwyd yn "Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru" a sicrhau proses ddidrafferth ar ei chyfer. Bydd hyn yn sicrhau darpariaeth sgiliau ôl-16 sy'n fwy cydnaws ag anghenion cyflogwyr, ac yn ymateb iddynt. Drwy ddatblygu partneriaethau strategol a chynaliadwy rhwng sectorau a darparwyr hyfforddiant, ac o fewn iddynt, rydym yn gobeithio: gwella lefelau sgiliau mewn cyflogaeth; codi lefelau cyflog mewn cyflogaeth; a galluogi'r rhai sy'n cymryd rhan i ennill cymwysterau rhannol.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i sicrhau y bydd adeiladu'r Orsaf Bŵer newydd ym Mhenfro yn darparu swyddi i weithwyr adeiladu Prydeinig. (WAQ55535)

***Rhoddwyd ateb ar 10 Mawrth 2010***

Yr Adran Gwaith a Phensiynau sy'n gyfrifol am faterion cyflogaeth a recriwtio, a chyflawnir y cyfrifoldeb gan y Ganolfan Byd Gwaith.

Mae fy swyddogion ar hyn o bryd yn ymgysylltu â darparwyr dysgu lleol, y gwasanaeth gyrfaoedd, busnesau sector a'r Ganolfan Byd Gwaith i ystyried p'un a allai menter uwchsgilio fod yn bosibl i helpu i sicrhau y llenwir y nifer fwyaf posibl o swyddi mewn crefftau mecanyddol (weldio, gosod pibellau a phlatio) i gefnogi anghenion contractwyr yn yr orsaf bŵer ac yn ehangach yn y farchnad lafur ynni leol.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i sicrhau y bydd adeiladu'r Orsaf Bŵer newydd ym Mhenfro yn dod â'r budd mwyaf i fusnesau lleol a busnesau yng Nghymru yn ystod y cyfnod adeiladu. (WAQ55536)

***Rhoddwyd ateb ar 12 Mai 2011***

Rydym yn rhoi cymorth i gwmnïau o Gymru ennill busnes gan Alstom, prif gontractwr yr orsaf bwer drwy ein rhaglen EnergyNet Cymru; prosiect Rhwydweithiau Cymorth Hyblyg i Fusnes, lle rydym wedi contractio cwmni lleol i weithio gyda chontractwyr a phrynwyr eraill wrth i'r orsaf bŵer gael ei hadeiladu; drwy drafodaethau parhaus â RWEnpower o ran cyfleoedd caffael ar gyfer nwyddau a gwasanaethau lleol yn ystod cam gweithredol yr orsaf bŵer; a thrwy Grŵp Datblygu Gweithlu Sector Ynni Sir Benfro.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Beth yw cost y grwpiau gorchwyl a gorffen sy'n ymwneud â phortffolio'r Gweinidog ar gyfer pob blwyddyn er 2005. (WAQ55539) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb***

***Ni ddarparwyd cyfieithiad***

**Jane Hutt**: The information you requested is not collected.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Beth yw cost yr adolygiadau allanol a wnaethpwyd gan adran y Gweinidog ym mhob blwyddyn er 2005. (WAQ55547) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb***

***Ni ddarparwyd cyfieithiad***

**Jane Hutt:** I will write to you as soon as possible and a copy of the letter will be published on the Official Record.

**Lynne Neagle (Tor-faen):** Pryd y mae'r Gweinidog yn disgwyl gweithredu estyniad y Cynllun Bathodyn Glas i rieni plant dan tair oed sydd ag anableddau difrifol. (WAQ55554)

***Rhoddwyd ateb ar 19 Ebrill 2011***

Mae Cynllun Gweithredu'r Bathodyn Glas, a gyhoeddais ddechrau mis Ionawr, yn nodi y dylid rhoi blaenoriaeth i ymestyn yr hawl i gynnwys plant o dan dair oed sydd â chyflyrau meddygol penodol.

Rydym yn llunio cynnig ar hyn o bryd, a fydd yn destun ymgynghoriad, a gobeithio y gallwn bennu'r rheoliadau erbyn 2011.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai*

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Pa welliannau sydd wedi cael eu gwneud gan Lywodraeth Cynulliad Cymru o ran ei hymrwymiad i fynd i'r afael â digartrefedd yng Nghymru. (WAQ55522) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Dirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio***

***Rhoddwyd ateb ar 19 Ebrill 2011***

**Y Dirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio (Jocelyn Davies)**: Mae digartrefedd wedi bod yn gostwng yn raddol ers 2005. Mae'r camau a gymerwyd gan Lywodraeth y Cynulliad wedi helpu i atgyfnerthu'r duedd ar i lawr. Rhwng mis Mehefin 2007 a Mehefin 2009, syrthiodd y prif ffigurau digartrefedd 17%, a bu gostyngiad o 11% yn nifer y bobl mewn llety dros dro. Mae nifer y bobl mewn llety Gwely a Brecwast wedi gostwng 14%.

Ym mis Gorffennaf y llynedd lansiais ein Cynllun Digartrefedd i Gymru. Mae hwn yn nodi gweledigaeth hirdymor yn seiliedig ar atal atal ac ymyrraeth gynnar.

Rwyf wedi cynnwys digartrefedd yn y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ar Dai er mwyn ein galluogi i newid y ddeddfwriaeth i ddiwallu anghenion Cymru.

Mae'r sefyllfa ariannol a'r farchnad dai yn anodd o hyd, ond mae ystod eang o gamau gweithredu ar waith gennym i atal digartrefedd. Gyda chymorth parhaus llawer o'r sefydliadau sy'n ceisio mynd i'r afael â digartrefedd, rwyf yn hyderus y gallwn barhau i wneud cynnydd.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Pa gynnydd sydd wedi cael ei wneud o ran datblygu cartrefi nyrsio di-elw newydd. (WAQ55525) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Dirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio***

***Rhoddwyd ateb ar 19 Ebrill 2011***

**Jocelyn Davies** Roedd y datganiad ysgrifenedig a gyhoeddais ar 10 Rhagfyr 2009 yn egluro bod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ystyried ystod o opsiynau o ran datblygu cartrefi nyrsio di-elw newydd. Ffafrir datblygu model integredig o wasanaethau i ddarparu ystod eang o wasanaethau a chyfleusterau lleol. Gall hyn gynnwys gwelyau mewn cartrefi nyrsio, cyfleusterau gofal dydd, tai Extracare, meddygfa Meddyg Teulu, a chanolfan ar gyfer gwasanaethau cymunedol megis nyrsio a gofal. Byddai'r gwasanaeth yn seiliedig ar ddadansoddiad o anghenion lleol.

Mae swyddogion o'r adrannau Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai wrthi'n gweithio i ddatblygu'r model newydd gyda swyddogion awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol. Mae prosiectau arddangos yn cael eu datblygu yn Llanfair-ym-Muallt ym Mhowys a Thregaron yng Ngheredigion.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Beth yw cost y grwpiau gorchwyl a gorffen sy'n ymwneud â phortffolio'r Gweinidog ar gyfer pob blwyddyn er 2005. (WAQ55540) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb***

***Ni ddarparwyd cyfieithiad***

**Jane Hutt**: The information you requested is not collected.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Beth yw cost yr adolygiadau allanol a wnaethpwyd gan adran y Gweinidog ym mhob blwyddyn er 2005. (WAQ55548) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb***

***Ni ddarparwyd cyfieithiad***

**Jane Hutt:** I will write to you as soon as possible and a copy of the letter will be published on the Official Record.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Pa gynnydd y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i wneud o ran creu Sefydliad Cenedlaethol o Ymchwil Iechyd. (WAQ55524)

***Rhoddwyd ateb ar 19 Ebrill 2011***

Lansiwyd y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Gofal Cymdeithasol ac Iechyd (NISCHR) fel sefydliad 'rhithwir' ym mis Mawrth 2009. Rwyf wedi sicrhau bod rhagor o gyllid ar gael i ddatblygu NISCHR.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Pa mor agos yw Llywodraeth Cynulliad Cymru at sicrhau bod un nyrs yn cael ei darparu ar gyfer pob ysgol uwchradd erbyn 2011. (WAQ55526)

***Rhoddwyd ateb ar 19 Ebrill 2011***

Rydym ar y trywydd cywir i gyflawni ymrwymiad Cymru'n Un i "ddarparu o leiaf un nyrs deulu i bob ysgol uwchradd erbyn diwedd tymor y Cynulliad". Fe'ch cyfeiriaf at fy llythyr dyddiedig 27 Ionawr am fanylion ein cynnydd.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Pa gynnydd sydd wedi cael ei wneud yng nghyswllt rhoi'r gorau i ddefnyddio ysbytai'r sector preifat gan y GIG. (WAQ55527)

***Rhoddwyd ateb ar 19 Ebrill 2011***

Mae'r GIG yn gweithio i ddileu'r angen i ddefnyddio ysbytai sector preifat yn GIG Cymru erbyn diwedd 2011.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Sut y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi symud ymlaen o ran ei haddewid i weithredu Strategaeth Lleihau Alcohol Cymru gyfan sy'n ceisio cynyddu nifer y lleoedd adsefydlu cyffuriau sydd ar gael yng Nghymru. (WAQ55534)

***Rhoddwyd ateb ar 19 Ebrill 2011***

Cyhoeddwyd canllawiau ym mis Gorffennaf 2008 i roi cymorth i Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol a darparwyr triniaethau i wella safon a gallu ac adnoddau gwasanaethau dadwenwyno i gleifion mewnol ac adsefydlu preswyl (Haen 4) yng Nghymru.
Mae £1m o refeniw cylchol ar gael i gynorthwyo â hyn. Sicrhawyd 80 o leoedd adsefydlu preswyl a 37 o leoedd dadwenwyno i gleifion mewnol gan yr arian hwn y llynedd. Yn ogystal â hynny anogwyd Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a darparwyr Haen 4 i ddefnyddio'r Gronfa Cyfalaf Camddefnyddio Sylweddau i wella safon y cyfleusterau presennol ac mae nifer o ddarparwyr Haen 4 wedi manteisio ar yr

arian hwn eisoes. Ceir manylion am hyn yn yr Adroddiad Cynnydd Blynyddol ar Gamddefnyddio Sylweddau a gyhoeddais yn ddiweddar.
Bwriedir cynnal seminar yn hwyrach eleni i adolygu cynnydd ac ystyried a oes angen rhagor o gymorth.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Beth yw cost y grwpiau gorchwyl a gorffen sy'n ymwneud â phortffolio'r Gweinidog ar gyfer pob blwyddyn er 2005. (WAQ55538) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb***

***Ni ddarparwyd cyfieithiad***

**Jane Hutt**: The information you requested is not collected.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Beth yw cost yr adolygiadau allanol a wnaethpwyd gan adran y Gweinidog ym mhob blwyddyn er 2005. (WAQ55546) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb***

***Ni ddarparwyd cyfieithiad***

**Jane Hutt:** I will write to you as soon as possible and a copy of the letter will be published on the Official Record.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Dreftadaeth*

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Faint o gynnydd sydd wedi cael ei wneud i roi hwb i chwaraeon ar lawr gwlad drwy addewid Llywodraeth Cynulliad Cymru i hyfforddi hyfforddwyr ychwanegol i'r safonau diweddaraf. (WAQ55528)

***Rhoddwyd ateb ar 19 Ebrill 2011***

Ers 2004, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyfrannu buddsoddiad o £1.4miliwn y flwyddyn i ddatblygu hyfforwwyr drwy'r Cynllun Hyfforddi ar gyfer Cymru. Mae gennym tua 14,000 o hyfforddwyr gwirfoddol yng Nghymru erbyn hyn.
Fel y nodwyd gennyf yn ystod y Cyfarfod Llawn ar 20 Ionawr, gall gwell hyfforddwyr helpu i annog mwy o bobl i gymryd rhan mewn chwaraeon ac rydym wrthi'n trafod â Chyngor Chwaraeon Cymru ynglŷn â chynllun â'r nod o gynyddu nifer yr hyfforddwyr ac rwyf yn bwriadu gwneud cyhoeddiad yn fuan.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Faint o gynnydd sydd wedi cael ei wneud i roi hwb i chwaraeon llawn gwlad drwy addewid Llywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau bod plant oed ysgol yn gwneud o leiaf pump awr o weithgarwch corfforol bob wythnos. (WAQ55529)

***Rhoddwyd ateb ar 19 Ebrill 2011***

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu chwaraeon ar lawr gwlad yn llawn a gwneir cynnydd da o ran gwella nifer, safon ac amrywiaeth y cyfleoedd sydd ar gael i blant ysgol allu cyflawni 5 awr o weithgarwch corfforol bob wythnos.
Mae cynlluniau megis 5 x 60 yn parhau i gyfrannu'n sylweddol, drwy fynd ati i droi ysgolion yn lleoedd egnïol lle y bydd disgyblion yn fywiog ac yn datblygu arferion da a fydd yn para am oes. Yn ogystal â hynny, mae Cyngor Chwaraeon Cymru yn rhoi strwythurau ar waith i sicrhau bod cysylltiad a llwybr effeithiol rhwng cymryd rhan mewn chwaraeon yn yr ysgol ag ymuno â chlybiau chwaraeon lleol.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Sut y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cymryd camau i ymestyn cyllid a chefnogaeth ar gyfer cylchgronau a phapurau newydd cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys sefydlu papur newydd dyddiol Cymraeg. (WAQ55530)

***Rhoddwyd ateb ar 19 Ebrill 2011***

Caiff cymorth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer cylchgronau a phapurau newydd Cymraeg ei sianelu drwy Gyngor Llyfrau Cymru. Yn ystod blwyddyn ariannol 2009-10, mae Cyngor Llyfrau Cymru'n rhoi grantiau o £360,000 i gefnogi 17 o gylchgronau.

Mae Cyngor Llyfrau Cymru hefyd yn cefnogi'r gwasanaeth newyddion ar-lein Cymraeg Golwg 360, a ariennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae hyn yn cyflawni ymrwymiad Cymru'n Un. I'r perwyl hwn, caiff swm o £200,000 y flwyddyn ei wobrwyo i Golwg Newydd ar gyfer y cyfnod 2008-11.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru, drwy Fwrdd yr Iaith Gymraeg, hefyd yn ariannu'r papurau bro poblogaidd a fydd yn cael £74,073 yn ystod blwyddyn ariannol 2009-10.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Beth yw cost y grwpiau gorchwyl a gorffen sy'n ymwneud â phortffolio'r Gweinidog ar gyfer pob blwyddyn er 2005. (WAQ55545) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb***

***Ni ddarparwyd cyfieithiad***

**Jane Hutt**: The information you requested is not collected.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Beth yw cost yr adolygiadau allanol a wnaethpwyd gan adran y Gweinidog ym mhob blwyddyn er 2005. (WAQ55553) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb***

***Ni ddarparwyd cyfieithiad***

**Jane Hutt:** I will write to you as soon as possible and a copy of the letter will be published on the Official Record.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig*

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Pa gamau sydd wedi cael eu cymryd i fynd ar drywydd rhaglen i ddileu bTB. (WAQ55531)

***Rhoddwyd ateb ar 19 Ebrill 2011***

Fel yr wyf wedi nodi yn fy niweddariadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, rydym wedi rhoi rhaglen gynhwysfawr ar waith i ddileu TB buchol yng Nghymru. Rydym yn defnyddio pob dull a modd posibl o fynd i'r afael â'r clefyd ac wedi cymryd camau sylweddol eisoes i'r broblem o wartheg yn lledaenu'r clefyd.

Ym mis Medi 2008 cyhoeddais y byddai pob buches o wartheg yng Nghymru yn cael ei phrofi am TB buchol dros gyfnod o 15 mis fel rhan o fenter Archwiliad Iechyd TB Cymru. Daeth hyn i ben ym mis Rhagfyr 2009, a lladdwyd 185 o wartheg a oedd wedi'u heintio o ganlyniad, o 96 o fuchesi yr ystyriwyd yn flaenorol nad oeddent wedi'u heintio â TB buchol. Roedd 62 o'r buchesi hyn yng Ngogledd Cymru, ardal yr ystyriwyd yn flaenorol nad oedd ganddi broblem TB buchol sylweddol. O ganlyniad i'r

Archwiliad Iechyd TB, mae nifer y profion sydd heb eu cynnal wedi lleihau yn sylweddol. Bydd pob buches gwartheg yng Nghymru yn cael profion TB blynyddol yn 2010 sy'n golygu y bydd angen i bob buches fodloni gofynion y Profion Cyn Symud hefyd.

Mae ymgynghoriad yn mynd rhagddo ar hyn o bryd ar Orchymyn Twbercwlosis a Brwselosis (Cymru) 2010 sy'n cynnig newidiadau i eithriadau'r Profion Cyn Symud a threfniadau iawndal, fel y bydd ffermwyr nad ydynt yn cydymffurfio â'r rheoliadau profi TB yn cael llai o iawndal.

Credaf fod angen i ni ddelio â phob un o darddleoedd yr haint er mwyn ei ddileu'n llwyr. Mae astudiaethau blaenorol wedi dod i'r casgliad bod moch daear yn darddle o TB buchol felly cyhoeddais yn fy natganiad mwyaf diweddar ar 13 Ionawr 2010 y byddai rhaglen gyfyngedig i ddifa moch daear yn digwydd, ochr yn ochr â mesurau llymach i reoli gwartheg, mewn ardal beilot yng ngorllewin Cymru.

Rydym yn sefydlu fframwaith hefyd i atal a rheoli TB buchol mewn camelidau a monitro lefelau TB buchol mewn geifr fferal a cheirw gwyllt.

Ceir wybodaeth am y Rhaglen Dileu TB, gan gynnwys manylion pob mesur a roddwyd ar waith hyd yn hyn a dolenni i'm datganiadau, ar wefan TB buchol Llywodraeth Cynulliad Cymru (www.wales.gov.uk/bovinetb) a byddaf yn parhau i gyflwyno adroddiad yn flynyddol i'r Is-Bwyllgor Datblygu Gwledi

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Pa gynnydd sydd wedi cael ei wneud i weithredu'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer y diwydiant llaeth. (WAQ55532)

***Rhoddwyd ateb ar 19 Ebrill 2011***

Lansiwyd y cynllun strategol ar gyfer diwydiant llaeth Cymru ym mis Tachwedd 2007. Mae'r gwaith hyd yma wedi canolbwyntio ar effeithlonrwydd ar ffermydd, llywio arloesi ym maes technegau cynhyrchu newydd, i ddatblygu cynnyrch newydd. Mae prif nodau'r strategaeth - i sicrhau Sector Llaeth cynaliadwy, effeithlon, arloesol sy'n gwneud elw i Gymru, sy'n fanteisiol i bawb yng Nghymru - yn berthnasol heddiw o hyd, ac mae partneriaid ym mhob rhan o'r diwydiant yn cydweithio i gyflawni'r nodau hyn.

Rhaid i ffermwyr godro, fel holl ffermwyr Cymru, geisio gwella cynhyrchiant drwy leihau costau a chynyddu allbwn. Drwy Cyswllt Ffermio, rydym wedi gweithio i annog ffermwyr godro i fabwysiadu dulliau mwy cynaliadwy. Rydym wedi bod yn gweithio i ddatblygu a dangos systemau cynhyrchu a thechnegau rheoli hefyd sy'n gwella iechyd a lles buchesi, i gyfrannu at broffidioldeb y cynhyrchydd. Rwyf o'r farn bod hyn yn rhoi sylfaen gadarn i ni, a sail i hyrwyddo'r diwydiant llaeth yng Nghymru.

Mae'r diwydiant llaeth yn holl bwysig i economi Cymru, ac rwyf yn ymwybodol iawn o'r pwysau mae'n ei wynebu. Mae ffermio gwartheg godro yn fusnes dynamig, ac fel pob busnes arall, rhaid iddo barhau i symud ymlaen bob amser. Yng Nghymru gallwn leihau ein cysylltiad â marchnad hynod gyfnewidiol y byd ac osgoi cystadleuaeth uniongyrchol â'r cynhyrchwyr llaeth sydd â'r prisiau isaf drwy geisio cynyddu'r gyfran o laeth a gaiff ei ddefnyddio mewn cynnyrch â gwerth ychwanegol a phwysleisio'r safonau uchel a geir yng Nghymru o ran lles anifeiliaid a'r amgylchedd.

Credaf fod dyfodol cadarnhaol i'r sector os bydd yn croesawu'r weledigaeth a geir yn y Cynllun Gweithredu Strategol ac yn mynd ati i fanteisio ar gyfleoedd drwy gydweithio, cynyddu cynhyrchiant, gwella effeithiolrwydd, cynyddu arloesedd cynnyrch, ac yn canolbwyntio ar farchnadoedd brandiau â gwerth ychwanegol.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Beth yw cost y grwpiau gorchwyl a gorffen sy'n ymwneud â phortffolio'r Gweinidog ar gyfer pob blwyddyn er 2005. (WAQ55544) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb***

***Ni ddarparwyd cyfieithiad***

**Jane Hutt**: The information you requested is not collected.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru)**: Beth yw cost yr adolygiadau allanol a wnaethpwyd gan adran y Gweinidog ym mhob blwyddyn er 2005. (WAQ55552) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb***

***Ni ddarparwyd cyfieithiad***

**Jane Hutt:** I will write to you as soon as possible and a copy of the letter will be published on the Official Record

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol*

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Beth sydd wedi cael ei wneud i sicrhau bod mynediad i undeb credyd ar gael ar gyfer pob ysgol uwchradd yng Nghymru erbyn 2011. (WAQ55537)

***Rhoddwyd ateb ar 19 Ebrill 2011***

Mae undebau credyd ledled Cymru yn gweithio'n agos gydag ysgolion uwchradd i ymgysylltu'n fwy agos â phobl ifanc.  Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cefnogi 15 o undebau credyd ar hyn o bryd drwy ein rhaglen ariannu i ddatblygu'r partneriaethau hyn ledled Cymru. Rydym wedi ariannu Canolfan Cydweithredol Cymru i gefnogi'r gwaith hwn hefyd drwy adnodd ar-lein rhyngweithiol newydd - CU@theCU - sydd wedi cael ei ddatblygu i helpu i sefydlu'r cysylltiadau pwysig hynny rhwng undebau credyd ag ysgolion uwchradd.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Beth yw cost y grwpiau gorchwyl a gorffen sy'n ymwneud â phortffolio'r Gweinidog ar gyfer pob blwyddyn er 2005. (WAQ55542) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb***

***Ni ddarparwyd cyfieithiad***

**Jane Hutt**: The information you requested is not collected.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Beth yw cost yr adolygiadau allanol a wnaethpwyd gan adran y Gweinidog ym mhob blwyddyn er 2005. (WAQ55550) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb***

***Ni ddarparwyd cyfieithiad***

**Jane Hutt:** I will write to you as soon as possible and a copy of the letter will be published on the Official Record.